

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

COFNODION CYFARFOD BWRDD IECHYD PRIFYSGOL CWM TAF MORGANNWG (BIP CTM)

A GYNHALIWYD DDYDD IAU 26 MAWRTH 2020
YN NHŶ YNYSMEURIG, PARC HEN LOFA'R NAVIGATION,
ABERCYNON

AELODAU OEDD YN BRESENNOL:

Marcus Longley	– Cadeirydd (Trwy delegynhadledd)
Sharon Hopkins	– Prif Weithredwr (Dros Dro)
Maria Thomas	– (Is-gadeirydd)
Paul Griffiths	– Aelod Annibynnol (Trwy delegynhadledd)
Nick Lyons	– Cyfarwyddwyr Meddygol
Kelechi Nnoaham	– Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd (Ar gyfer eitem 4.1 ar yr agenda)
Steve Webster	– Cyfarwyddwr Cyllid

ERAILL OEDD YN BRESENNOL

Georgina Galletly	– Cyfarwyddwr Llywodraethu / Ysgrifennydd y Bwrdd (Dros Dro)
Emma Walters	– Swyddog Llywodraethu Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth)

A) MATERION RHAGARWEINIOL

HB/20/034

EITEM 1.1 AR YR AGENDA CROESOA CHYFLWYNIADAU

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd fod y cyfarfod yn cael ei gynnal o dan amgylchiadau anarferol o ystyried y sefyllfa sydd ohoni o ran COVID-19. **NODODD** Aelodau y penderfynwyd cynnal cyfarfod o'r Bwrdd â chworwm, a bod cworwm wedi ei gyflawni gan fod y Cadeirydd, M K Thomas a P Griffiths yn bresennol fel Aelodau Annibynnol, a chan fod S Hopkins, N Lyons ac S Webster yn bresennol fel Cyfarwyddwyr Gweithredol. Dywedodd y Cadeirydd fod G Galletly hefyd yn bresennol, a nododd hefyd y byddai K Nnoaham yn bresennol yn y cyfarfod am ran ohono i roi diweddariad ynghylch COVID-19. **NODODD** Aelodau fod M Longley a P Griffiths wedi ymuno â'r cyfarfod trwy delegynhadledd.

Dywedodd y Cadeirydd fod nifer o adroddiadau yn cael eu cyflwyno o dan Agenda Gydsyniad, a oedd yn ymwneud ag eitemau y gofynnwyd i bob aelod o'r Bwrdd eu hystyried cyn y cyfarfod, fel y gall y Bwrdd fynd trwy'r agenda mewn modd effeithlon.

Dywedodd y Cadeirydd i bob adroddiad gael ei gyhoeddi cyn y cyfarfod ar iBabs ac ar wefan y Bwrdd Iechyd, a hynny yn ôl yr arfer yn achos cyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus. Gwahoddwyd pob aelod o'r Bwrdd i gyflwyno ymholiadau neu sylwadau am yr eitemau i'w trafod yn y cyfarfod,

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

a byddai pob ymholiad neu sylw o'r fath yn cael ei drafod yn ei dro yn y rhan berthnasol o'r agenda

Roedd y Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i gyhoeddi 'Briffiad gan y Bwrdd' cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod, i sicrhau tryloywder o ran canlyniadau'r cyfarfod a'r hyn a drafodwyd ynddo.

HB/20/035

EITEM 1.2 AR YR AGENDA YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

NODODD Aelodau nad oedd unrhyw ymddiheuriadau ffurfiol y byddai rhaid eu cofnodi o dan yr amgylchiadau presennol.

HB/20/036

EITEM 1.3 AR YR AGENDA DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Nid oedd yr un datganiad o fuddiant.

B) AGENDA GYDSYNIAD

HB/20/037

EITEM 2.1 AR YR AGENDA COFNODION GWEITHREDU

DERBYNIODD y Bwrdd y Cofnodion Gweithredu ac fe'u **NODWYD**.

HB/20/038

AGENDA 2.2 AR YR AGENDA COFNODION HEB EU CADARNHAU O GYFARFODYDD Y BWRDD IECHYD A GYNHALIWDYD AR 30 IONAWR 2020 A 27 CHWEFOR 2020.

CYMERADWYDD Aelodau gofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020 a 27 Chwefror 2020, yn gofnodion gwir a chywir.

CYMERADWYDD Aelodau gofnodion cyfarfod 'Mewn Pwyllgor' y Bwrdd Iechyd a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2020, yn amodol ar y diwygiad canlynol:

- Tudalen 1 - Cofnodi i Greg Dix, Cyfarwyddwr Nyrsio, Bydwreigiaeth a Gwasanaethau Cleifion fod yn bresennol yn y cyfarfod.

HB/20/039

EITEM 2.3 AR YR AGENDA ADRODDIAD Y CADEIRYDD A GOSOD Y SÊL GYFFREDIN

Dywedodd M Longley i un sylw ddod i law gan Aelod Annibynnol ynghylch penodi'r Cyfarwyddwr Cynllunio. Roedd y sylw yn nodi bod adroddiad y Cadeirydd yn nodi bod angen i'r Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaethau gymeradwyo'r penodiad, ond bod y penodiad wedi ei wneud eisoes yn ôl adroddiad y Prif Weithredwr.

NODODD Aelodau yr ymateb a roddwyd, sef yr angen ar y pryd i'r penodiad gael ei gymeradwyo er mwyn i'r unigolyn gychwyn ar 1 Ebrill

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

2020, a bod y mater i'w drafod yn y Pwyllgor Taliadau a Thelerau Gwasanaethau yn ddiweddarach heddiw.

Atgoffodd S Webster fod ymrwymiad wedi'i roi yn flaenorol y byddai'r Cadeirydd yn gweithredu mewn perthynas â chymeradwyo'r lanfa hofrenyddion yn Ysbyty'r Tywysog Siarl, a dywedodd fod angen sicrhau bod y Bwrdd wedi gwneud penderfyniad ffurfiol ar y mater. **CYTUNODD** G Galletly i adolygu'r sefyllfa, i sicrhau bod penderfyniad ffurfiol wedi ei gofnodi.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **NODI'R** adroddiad;
- **CYMERADWYO** gosod y Sêl Gyffredin ar y dogfennau a restrir yn yr adroddiad.

HB/20/040

EITEM 2.5 AR YR AGENDA ADRODDIAD Y PRIF WEITHREDWR

Dywedodd S Hopkins fod cyfeiriad yn yr adroddiad at agoriad swyddogol Canolfan Geni Tirion ar 9 Mawrth 2020. **NODODD** Aelodau fod yr Uned ar gau dros dro o ganlyniad i'r sefyllfa sydd ohoni o ran COVID-19.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/042

EITEM 2.5 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI'R PWYLLGOR ARCHWILIO A RISG O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 25 CHWEFROR 2020.

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

HB/20/043

EITEM 2.6 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI PWYLLGOR MONITRO'R DDEDDF IECHYD MEDDWL O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 12 MAWRTH 2020

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

HB/20/044

EITEM 2.7 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI'R PWYLLGOR GOFAL SYLFAENOL, IECHYD Y BOBLOGAETH A PHARTNERIAETHAU O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 10 CHWEFROR 2020

Gofynnodd M K Thomas i'r drafodaeth am yr adroddiad hwn gael ei gohirio tan y cyfarfod nesaf am iddo gyrraedd yn hwyr, ac oherwydd hynny ni chafodd Aelodau ddigon o amser i'w ddarllen. **CYTUNODD** y Bwrdd ohirio trafod yr adroddiad tan y cyfarfod ym Mai.

EITEM 2.8 AR YR AGENDA Y STRATEGAETH RHEOLI RISG

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad, a dywedodd y Cadeirydd i sylw ddod i law gan Aelod Annibynnol a oedd yn nodi y byddai angen diwygio Atodiad 2 i adlewyrchu'r newidiadau diweddar i bwyllgorau, y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd yn ei gyfarfod ym mis Ionawr. **NODODD** Aelodau y byddai'r Fframwaith yn cael ei ddiwygio i adlewyrchu hynny.

Dywedodd M K Thomas fod gwaith ar y strategaeth yn parhau, a'i bod yn glir iawn o ran sut y byddai risgiau'n cael eu rheoli. Ychwanegodd M K Thomas y byddai angen darparu hyfforddiant ar gyfer y strategaeth newydd.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO'R** Strategaeth Rheoli Risg, fel y gallai gwaith gychwyn i gofnodi pob risg ar Datix;
- **NODI'R** amserlenni arfaethedig ar gyfer adnewyddu'r trefniadau rheoli risg, ond hefyd nodi bod y rhain yn gyfnewidiol ac yn agored i gael eu newid wrth i BIP CTM ymateb i COVID-19.

EITEM 2.9 AR YR AGENDA Y GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad, a dywedodd y Cadeirydd i sylw ddod i law gan Aelod Annibynnol, yn holi sut y penderfynwyd ar y sgôr o '20' mewn perthynas â COVID-19.

NODODD Aelodau i'r sylw gael ei ateb a nododd, mewn perthynas â sgorio risgiau, fod yr her yn cael ei hystyried i fod yn un deg. **NODODD** Aelodau fod Rheolaeth Aur wrthi'n adolygu hyn, a'i bod yn debygol y byddai'r risg yn derbyn sgôr risg uwch yn dilyn asesiad. **NODODD** Aelodau i'r risg gael ei datblygu a'i hasesu bythefnos yn ôl yn wreiddiol, ac oherwydd y sefyllfa sy'n newid yn aml, nodwyd y byddai rhaid ei hadolygu a'i seilio ar y gofrestr risg fwy manwl ar gyfer COVID-19.

NODODD Aelodau y byddai cofrestr risg 'Aur' fwy manwl yn cael ei rhannu ag Aelodau'r Bwrdd ar IBABS o fewn dogfennau personol fel bod gwell sicrwydd ganddynt am bob risg yn ymwneud â COVID-19, ac y byddai honno'n cael ei diweddarau'n wythnosol.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad er sicrwydd.

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

HB/20/047

EITEM 2.10 AR YR AGENDA Y RHAGEN AR GYFER GWELLIANNAU PARHAUS I YMATEB I ADRODDIAD CYNNYDD YMYRRAETH WEDI'I THARGEDU

Dywedodd S Hopkins y byddai gwneud rhagor o waith gydag Aelodau'r Bwrdd yn hanfodol i sicrhau bod y Bwrdd yn cael sicrwydd am sut mae'r Bwrdd Iechyd yn ei asesu ei hun yn erbyn y matrices aeddfedrwydd.

Dywedodd M Longley ei fod yn falch iawn o'r holl waith a oedd wedi ei wneud.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/048

EITEM 2.11 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI'R PWYLLGOR ANSAWDD A DIOGELWCH O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 4 MAWRTH 2020

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

HB/20/049

EITEM 2.12 AR YR AGENDA ADRODDIAD Y DANGOSFWRDD ANSAWDD

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **NODWYD** i sylw ddod i law gan Aelod Annibynnol am Dudalen 2 yr adroddiad, a nododd fod sgôr 'caredigrwydd a thosturi' wedi gostwng ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, ac nad oedd hyn wedi ei nodi yn yr Adroddiad Gwella Gwasanaethau Mamolaeth.

NODODD Aelodau i Greg Dix ymateb i'r sylw, gan ddweud ei bod yn debygol bod hyn yn ymwneud â holiaduron 'amser real' nad oeddent i'w cymharu â data 'ehangach' eraill o holiaduron, ac ychwanegodd y byddai'r sefyllfa'n parhau i gael ei monitro.

Nododd P Griffiths ei bod yn ymddangos bod adroddiadau'n cael eu cyhoeddi ar adegau gwahanol, ac y dylai swyddogion fynd i'r afael â hynny trwy groeswrio adroddiadau ar yr adeg y cânt eu cyflwyno i gyfarfodydd, er mwyn sicrhau rhagor o gysondeb wrth adrodd. Dywedodd M K Thomas fod gwaith mewn perthynas â hyn ar y gweill, a dywedodd y byddai'r tîm yn canolbwyntio ar wella prosesau adrodd yn barhaus.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

**EITEM 2.13 AR YR AGENDA
GWASANAETHAU MAMOLAETH****EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA****ADRODDIAD GWELLA**

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **NODWYD** i sylw ddod i law gan Aelod Annibynnol am Dudalen 2 yr adroddiad, a nododd fod cynnydd gyda'r rhaglen gwelliannau wedi arafu ac y byddai oedi wrth drosglwyddo'r gwasanaethau hyn i'r Model Gweithredu newydd a fyddai ar waith i weddill y Bwrdd Iechyd o Ebrill 2020. Gofynnodd Aelodau Annibynnol am sicrwydd na fyddai cynnydd yn arafu ymhellach, a holasant a oedd cynllun ar waith i adfer y sefyllfa hon.

NODODD Aelodau i'r ymateb a roddwyd esbonio bod y diffyg cynnydd yn ymwneud yn bennaf â'r ymrwymiad blaenorol i ganllawiau gael eu cwblhau erbyn diwedd Mawrth 2020. **NODODD** Aelodau i'r Cyfarwyddwr Bydwreigiaeth newydd adolygu'r cynllun cychwynnol hwn, a'i fod wedi datblygu cynllun diwygiedig â'r nod o sicrhau bod y gwaith o weithredu nifer fawr o ganllawiau newydd yn cael ei asesu o ran risg, ac nad yw'r gwaith hwnnw'n effeithio ar ddiogelwch clinigol. Mae cynllun tair blynedd yn cael ei ddatblygu ar gyfer yr holl ganllawiau mamolaeth, i sicrhau bod cylch adolygu treigl ar waith i adolygu canllawiau at y dyfodol.

NODODD Aelodau fod cynnydd wedi arafu o ran cyfarfodydd grwpiau prosiect y Tîm Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth hefyd, yn rhannol oherwydd gwaith paratoi ar gyfer COVID-19 ac yn rhannol oherwydd absenoldeb salwch, sy'n fater sydd wedi ei ddatrys erbyn hyn.

NODODD Aelodau y byddai penderfyniad yn cael ei wneud i oedi'r broses o drosglwyddo gwasanaethau mamolaeth i'r model gweithredu newydd, a fyddai'n rhoi'r cyfle i'r Tîm Arweinyddiaeth ar gyfer Mamolaeth safoni a gwreiddio ymarfer a sicrhau bod y Gwasanaeth Mamolaeth yn ei gyfanrwydd yn cadw ei arweinyddiaeth a'i ffocws pwrpasol. Roedd hyder ymysg yr Aelodau felly y byddai cynnydd yn parhau, er gwaethaf unrhyw oedi posibl a all ddigwydd os bydd maint y gweithlu yn gostwng oherwydd COVID-19.

Dywedodd M K Thomas fod y matrices a'r cynllun datblygu ar gyfer Gwasanaethau Mamolaeth yn cael eu monitro'n agos trwy'r Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, a dywedodd y byddai'n dwyn sylw'r Bwrdd at unrhyw lithriadau pellach. **NODODD** Aelodau fod cyfarfodydd olaf y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth a'r Rhaglen Gwella Mamolaeth wedi cael eu canslo, oherwydd y pwysau yn sgil COVID-19.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

DERBYNIODD y Bwrdd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Dywedodd M K Thomas i faterion o ran cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg gael eu codi fel 'Rhybudd Coch' gan y Pwyllgor Ansawdd a Diogelwch, ac roedd y Pwyllgor am ddwyn sylw'r Bwrdd at y ffaith y byddai'r Bwrdd Iechyd yn ei chael yn anodd cydymffurfio â phob un o'r Safonau gofynnol.

Dywedodd S Hopkins i gyfarfod gael ei gynnal â Chomisiynydd y Gymraeg, a nododd ei fod yn teimlo bod y Bwrdd Iechyd wedi ymdrin â'r Gymraeg mewn modd rhesymol a bod y sefydliad wedi ymdrin â'r iaith mewn modd tebyg i Fyrddau Iechyd eraill. **NODODD** Aelodau fod gwaith ar y gweill i archwilio sut y gallai'r safonau helpu profiad y cleifion. Ychwanegodd S Webster i drafodaeth gael ei chynnal yn y Bwrdd Rheoli, lle cytunwyd y byddai gwaith mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg yn cael ei wneud unwaith bod y pwysau yn sgil COVID-19 wedi lleddfu.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **GYMERADWYO'R** Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

HB/20/052

EITEM 2.15 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI'R PWYLLGOR CYLLID, PERFFORMIAD A'R GWEITHLU O'R CYFARFOD A GYNHALIWDYD AR 20 CHWEFOR 2020

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

HB/20/053

EITEM 2.16 AR YR AGENDA Y DANGOSFWRDD PERFFORMIAD INTEGREDIG

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad, a **NODWYD** i ddau sylw ddod i law gan Aelodau Annibynnol. Roedd y sylw cyntaf yn gofyn am eglurder ar y cynlluniau wrth gefn i fynd i'r afael â'r achosion hynny lle mae cleifion wedi bod yn aros am 36 wythnos, unwaith i'r Bwrdd Iechyd ddychwelyd i 'fusnes arferol'.

NODODD Aelodau i ymateb gael ei roi, a nodwyd yn hwnnw fod gan y Bwrdd Iechyd gynllun COVID graddol a fyddai'n cynnwys cyfnod sefydlogi ac adfer o Fehefin 2020 ymlaen. Mae Rheolaeth Arian a Rheolaeth Efydd wrthi'n gweithio ar y manylion.

Roedd yr ail sylw a ddaeth i law gan Aelod Annibynnol yn nodi bod y nifer o achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal yn ardal Rhondda Cynon Taf ar ei uchaf mewn oddeutu blwyddyn, a holodd sut y digwyddodd hyn ac, o ystyried COVID-19, pa gynlluniau sydd ar waith i fynd i'r afael â hyn ar frys.

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

NODODD Aelodau i'r ymateb esbonio mai diffyg gweithwyr cymdeithasol mewn ysbytai cymunedol oedd yn gyfrifol am hyn, a bod y sefyllfa honno wedi ei datrys erbyn hyn. **NODODD** Aelodau fod nifer fawr o gleifion wedi eu rhyddhau ers hynny, a bod hyn yn parhau. Mae cynllun ar waith i gynyddu nifer y gwelyau 'oddi ar y safle' gan hyd at 500 erbyn canol Ebrill 2020.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad.

HB/20/054

EITEM 2.17 AR YR AGENDA ADRODDIAD CYLLID - MIS 11

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

HB/20/055

EITEM 2.18 AR YR AGENDA ADRODDIAD CRYNHOI'R PWYLLGOR DATA A DIGIDOL O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 6 CHWEFROR 2020

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **PHENDERFYNWYD** ei **NODI** er sicrwydd.

Croesawodd y Cadeirydd yr unffurfiaeth a'r eglurder sydd i'w cael yn fformat newydd adroddiadau crynhoi'r Pwyllgorau ar gyfer y Bwrdd, a dywedodd fod yr adroddiadau yn effeithiol iawn. Diolchodd i G Galletly am y gwaith a wnaed i lunio'r adroddiadau.

C) Y BRIF AGENDA

HB/20/056

EITEM 3.1 AR YR AGENDA MATERION YN CODI

Ni chodwyd unrhyw faterion eraill.

HB/20/057

EITEM 4.1 AR YR AGENDA DIWEDDARAD AM COVID-19

Roedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn bresennol yn y cyfarfod am yr eitem hon yn unig, a rhoddodd ddiweddariad ar lafar yn ychwanegol at yr adroddiad yn y papurau. **NODODD** Aelodau fod gwybodaeth yn cael ei diweddaru bob awr i lywio gwaith modelu a chynllunio capasiti, oherwydd natur gyflym y gwaith o baratoi ar gyfer COVID-19 ac ymateb iddo.

NODODD Aelodau i gydweithio agos â Byrddau Iechyd eraill gael ei gadarnhau, a nodwyd bod cynrychiolwyr o Awdurdodau Lleol yn bresennol ym mhob cyfarfod Rheolaeth Aur, Arian ac Efydd. **NODODD** y Bwrdd y byddai'r Gofrestr Risg ar gyfer COVID-19 Aur, ynghyd â darnau eraill o wybodaeth bwysig, yn cael eu rhannu'n rheolaidd â phob aelod o'r Bwrdd, ac y byddai diweddariadau dyddiol i staff a briffiadau wythnosol i randdeiliaid yn cael eu rhannu'n rheolaidd ag aelodau o'r Bwrdd.

CYTUNODD y Bwrdd i'r Cadeirydd ddiolch yn ddiffuant i'r holl staff oedd yn rhan o'r gwaith sydd ar y gweill ledled y Bwrdd Iechyd.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **NODI'R** diweddariad.
- **CYMERADWYO** Fframwaith Gwneud Penderfyniadau COVID-19

HB/20/058

EITEM 5.1 AR YR AGENDA RHAGLEN DE CYMRU - BWRW YMLAEN AG ARGYMHELLION SYDD ETO I'W CYFLAWNI

Tywysodd N Lyons y Bwrdd trwy'r papur, gan dynnu eu sylw at y canlynol:

- y broses gyffredinol i'w dilyn i roi opsiwn gerbron y Bwrdd i gael ei gymeradwyaeth;
- gwaith pellach a wnaed gan y prosiect ers adroddiad mis Chwefror;
- y rhesymau dros oedi nifer o weithgareddau prosiect dros dro;
- manylion am ba weithgareddau prosiect sydd wedi eu hoedi, a pha weithgareddau a fydd yn parhau er mwyn adeiladu ar y cynnydd sydd eisoes wedi ei wneud.

Cyfeiriodd N Lyons Aelodau at y diagram ar Dudalen 4 yr adroddiad, a oedd yn amlinellu prosesau a chamau'r rhaglen hyd yma, yn benodol o ran Opsiynau A a B, a dywedodd fod gwaith ar y gweill i sicrhau bod llywodraethiant, ymgysylltu a gwneud penderfyniadau oll yn dilyn yr arferion gorau.

Dywedodd N Lyons wrth y Bwrdd fod y BIP wedi bod yn gweithio'n agos â'r Consultation Institute, i sicrhau ei fod yn dilyn yr arferion gorau wrth ymgynghori ac ymgysylltu.

Dywedodd y Cadeirydd fod un sylw wedi dod i law gan Aelod Annibynnol, a oedd yn nodi bod adborth gan aelodau'r cyhoedd yn awgrymu bod rhai yn credu y gall ymgyrch recriwtio Cwm Taf Morgannwg i ddenu meddygon ar gyfer yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys ei gwneud yn bosibl cynnig gwasanaeth llawn dan arweiniad ymgynghorydd yno. Mae'n bwysig felly fod yn glir o ran pam mae'r gwaith yn cael ei wneud.

Yn dilyn y penderfyniadau a wnaed yn y Bwrdd Iechyd ym mis Ionawr 2020, **NODODD** Aelodau fod gwaith wedi ei wneud, ochr yn ochr â'r gwaith i ddatblygu ac asesu Opsiwn A ac Opsiwn B, i 'wneud popeth posibl' yn ymdrechion y Bwrdd Iechyd i benodi i'r swyddi gwag y mae angen eu llenwi i gadw'r gwasanaeth Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys 24 awr yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

Dyweddodd P Griffiths nad yw'n gwybod o hyd, er ei fod yn deall i waith. gael ei wneud, pam nad oedd tri opsiwn wedi cael eu trafod yn yr adroddiad. Dywedodd N Lyons mai'r 'opsiwn gwneud dim' oedd yr opsiwn oedd yn cael ei ddilyn ar hyn o bryd, ac ychwanegodd fod y Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio gyda'r Consultation Institute i sicrhau bod yr arferion gorau yn cael eu dilyn mewn perthynas ag ymgynghori ac ymgysylltu.

NODODD Aelodau fod y Consultation Institute wedi cadarnhau bod y Bwrdd Iechyd yn datblygu ymateb rhesymol wrth fodelu dau opsiwn dichonadwy, ac wrth 'wneud popeth posibl', fel y dangosir ar Dudalen 4 y papur bwrdd, a hynny tra bod yr ymdrechion yn parhau i ddarparu 'Adran D ac AB 24 awr ac ymdrechion i recriwtio'.

NODODD Aelodau fod ymdrechion i recriwtio yn parhau, ac y byddai unrhyw ymgyrch recriwtio lwyddiannus hefyd yn cefnogi naill ai Opsiwn A neu Opsiwn B. Fodd bynnag, fe'i cydnabuwyd ei bod yn anodd o hyd recriwtio digon o ymgynghorwyr a meddygon meddygaeth frys ar radd ganol, o ystyried y prinder cenedlaethol a phrofiad sefydliadau eraill yn y GIG. Fe'i **NODWYD** felly nad oedd y Bwrdd Iechyd yn ystyried hwn yn opsiwn newydd i'w ddatblygu a'i werthuso, ond yn ei ystyried yn rhywbeth y byddai'r Bwrdd Iechyd yn manteisio arno pe bai'n llwyddiannus.

NODODD Aelodau'r argymhelliad i oedi ac ailgyfnerthu'r rhaglen tra byddai'r ffocws ar COVID-19, ac fe'i **NODWYD** bod gwersi yn cael eu dysgu yn ystod y cyfnod hwn. **NODODD** Aelodau y byddai gwaith yn ailddechrau pe bai amser dros y wythnosau nesaf. **NODODD** Aelodau y byddai gwaith ymgysylltu â staff, cymunedau a phartneriaid yn ailddechrau cyn gynted ag y byddai'n ddiogel ac yn ymarferol gwneud hynny.

Cadarnhaodd y Cadeirydd fod pob Aelod o'r Bwrdd wedi darllen y wybodaeth oedd wedi ei chyflwyno gan 'Grŵp Achub Ein A&E', a bod y wybodaeth hon wedi ei hystyried.

CYTUNODD y Bwrdd â'r argymhelliad yn y papur, sef i oedi elfennau penodol o'r prosiect dros dro, ond i fwrw ymlaen â nifer fach o elfennau ynddo, yn amodol ar adolygiad parhaus gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol.

NODODD y Bwrdd y byddai datganiad cyn gynted â phosibl yn dilyn y cyfarfod i gadarnhau hyn.

PENDERFYNODD y Bwrdd **NODI** cynnwys yr adroddiad hwn a **CHYMERADWYO** oedi elfennau penodol o'r prosiect dros dro, ond bwrw ymlaen â rhai elfennau eraill, yn amodol ar adolygiad parhaus gan yr Uwch-Swyddog Cyfrifol.

HB/20/059

EITEM 6.1 AR YR AGENDA Y FFRAMWAITH RHEOLI PERFFORMIAD

DERBYNIODD y Bwrdd yr adroddiad a **NODWYD** nad oedd yr un sylw wedi dod i law gan Aelodau Annibynnol cyn y cyfarfod.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO'R** Fframwaith Rheoli Perfformiad i'w weithredu o 1 Ebrill 2020.

HB/20/060

EITEM 6.2 AR YR AGENDA Y CYNLLUN TYMOR CANOLIG INTEGREDIG 2020 - 2023

Cyflwynodd S Webster Gynllun Tymor Canolig Integredig 2020-2023 a gafodd ei ddiwygio yn sgil adborth gan Lywodraeth Cymru, sef y dylai'r Cynllun adlewyrchu cynlluniau 'gwaelod i fyny' a chynlluniau Cyfarwyddiaethau cryfach.

NODODD y Bwrdd na fyddai modd i'r un Bwrdd Iechyd gyflawni ei Gynllun Tymor Canolig Integredig presennol oherwydd COVID-19, ond nodwyd ei bod yn bwysig cymeradwyo cynllun fel y gellir sefydlu meincnod. Gellid amrywio'r cynllun hwnnw wedyn yn y misoedd i ddod wrth i ni symud tuag at gyfnod adfer COVID-19.

PENDERFYNODD y Bwrdd:

- **GYMERADWYO'R** Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-2023.

HB/20/061

EITEM 6.3 AR YR AGENDA GWEITHREDU'R RHWYDWAITH TRAWMA MAWR YN LLEOL

Cyflwynodd S Hopkins yr adroddiad a dywedodd fod y gwaith gweithredu wedi ei oedi o ganlyniad i'r gwaith paratoi ar gyfer COVID-19.

PENDERFYNODD y Bwrdd: **NODI'R** adroddiad

HB/20/062

EITEMAU 7.1 - 7.3 AR YR AGENDA EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIODD y Bwrdd yr eitemau canlynol er gwybodaeth yn unig:

- Adroddiad y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys;
- Adroddiad Pwyllgor y Bartneriaeth Cydwasanaethau;

EITEM 2.2.5 AR YR AGENDA

- Adroddiad y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid.

HB/20/063

EITEM 8.1 AR YR AGENDA UNRHYW FATERION ERAILL

Nid oedd unrhyw faterion eraill.

HB/20/064

EITEM 8.2 AR YR AGENDA DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Bydd y cyfarfod nesaf ddydd Iau 28 Mai 2020.

LLOFNOD:.....

M Longley, Cadeirydd

DYDDIAD:.....